

CYFARFOD	<b>PWYLLGOR PENSIYNAU</b>
DYDDIAD	<b>12 MEDI 2022</b>
TEITL	<b>Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD') - Ymgynghoriad 'TCFD'</b>
PWRPAS	<b>Hysbysu'r aelodau fod Llywodraeth San Steffan ('DLUHC') yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer gofynion newydd ar awdurdodau gweinyddu CPLIL.</b>
ARGYMHELLIAD	<b>Nodi'r bwriad i baratoi ateb ar ran y Gronfa Bensiwn Gwynedd</b>
AWDUR	<b>Dafydd L. Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa</b>

---

## **1. Ymgynghoriad Llywodraeth y DU**

Gydag effaith newid hinsawdd yn cael ei themlo'n fwy difrifol ar draws y byd, ar y 1af o Fedi lansiodd Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau ('DLUHC') Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau hinsawdd yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

Yn ôl y disgwyl, mae'r cynigion am ei wneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLIL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ('TCFD'), a disgwylir i reoliadau ddod i rym erbyn Ebrill 2023.

Mae'r ymgynghoriad a'r cynigion yma'n berthnasol i holl gronfeydd CPLIL Cymru a Lloegr, ac fe'u nodir ymhen y ddolen ganlynol –

[Local Government Pension Scheme \(England and Wales\): Governance and reporting of climate change risks - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/local-government-pension-scheme-governance-and-reporting-of-climate-change-risks)

## **2. Amserlen Ymgynghori**

Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw'r 24<sup>ain</sup> o Dachwedd 2022. Bydd ymgynghorydd buddsoddi'r Gronfa (Kenneth Taylor ar ran Hymans Robertson) yn cynnwys sylwebaeth ar y cynigion hyn yn ei gyflwyniad i gyfarfod Panel Buddsoddi'r Gronfa yn Llundain ar 26<sup>ain</sup>/27<sup>ain</sup> o Fedi.

## **3. Argymhelliad**

Gofynnir i'r aelodau nodi'r bwriad i baratoi ymateb drafft ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w gymeradwyo ym Mhwyllgor Pensiynau'r 14<sup>eg</sup> o Dachwedd.